Eich yfory. Eich pensiwn. Eich dyfodol.

Croeso i'r CPLlL



Yn eich helpu i adeiladu yfory gwell
Buddion diogel a gwerthfawr
Wedi'i ddarparu gan eich cyflogwr

cplll | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae eich yfory yn cychwyn heddiw

Fel aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL), mae gennych fynediad at un o'r cynlluniau pensiwn gorau sydd ar gael. Mae'n ffordd wych o gynilo ar gyfer eich dyfodol.

A'r rhan orau? Mae eich cyflogwr yn cyfrannu hefyd. Ond os byddwch yn dewis optio allan o'r cynllun, byddwch yn colli'r arian ychwanegol hwn tuag at eich ymddeoliad.





Beth gewch chi?

- Pensiwn gwarantedig: Mae'r CPLlL yn gynllun pensiwn buddion diffiniedig, sy'n golygu bod eich pensiwn yn seiliedig ar eich cyflog a hyd eich aelodaeth, nid ar berfformiad buddsoddiadau.
- Diogelu rhag chwyddiant: Caiff eich pensiwn ei addasu bob blwyddyn i helpu i gadw i fyny â chostau byw.
- Opsiynau ymddeol: Gallwch gymryd eich pensiwn unrhyw bryd rhwng 57 a 75 oed (neu o 55 oed os byddwch yn ymddeol cyn mis Ebrill 2028). Os byddwch yn cymryd eich pensiwn cyn oedran Pensiwn y Wladwriaeth, bydd yn cael ei leihau. Os byddwch yn ei gymryd yn hwyrach, bydd yn cynyddu.
- Opsiwn Lwmp Swm di-dreth: Pan fyddwch yn ymddeol, gallwch ddewis cymryd rhan o'ch pensiwn fel lwmp swm di-dreth.

Amddiffyniad ychwanegol

i chi a'ch anwyliaid



- Yswiriant bywyd o'r diwrnod cyntaf: Os byddwch yn marw tra'n cyfrannu at y CPLlL, bydd y gronfa bensiwn yn talu lwmp swm sy'n werth tair gwaith eich cyflog pensiynadwy.
- Cymorth os ydych yn rhy sâl i weithio: Os ydych wedi bod yn aelod am o leiaf ddwy flynedd ac yn rhy sal i barhau i weithio, efallai y byddwch yn gallu cael eich pensiwn yn gynnar.
- Pensiwn i'ch teulu: Gall partneriaid a phlant fod yn gymwys i gael pensiwn ar ôl eich marwolaeth.

Faint mae'n gostio?

Mae eich cyfraniadau yn seiliedig ar eich cyflog ac yn amrywio rhwng 5.5% a 12.5% o'ch tâl.



Os yw eich tal pensiynadwy gwirioneddol yn:	Byddwch yn talu cyfradd gyfraniad o:
Hyd at £18,400	5.5%
£18,401 i £29,000	5.8%
£29,001 i £47,300	6.5%
£47,301 i £59,800	6.8%
£59,801 i £84,000	8.5%
£84,001 i £119,100	9.9%
£119,101 i £140,400	10.5%
£140,401 i £210,700	11.4%
£210,701 neu fwy	12.5%

Ar gyfartaledd... Mae aelodau fel arfer yn talu tua 6.5%. Ond diolch i ryddhad treth, mae'r gost wirioneddol i chi hyd yn oed yn is:



Am bob £100 y byddwch yn ei gyfranu, y gost i chi yw:

Trethdalwr cyfradd sylfaenol:	**£80**
Trethdalwr cyfradd uwch:	**£60**

Os nad ydych yn ennill digon i dalu treth, ni fyddwch yn cael rhyddhad treth. Yn hytrach, bydd CThEF (HMRC) yn talu taliad atodol yn uniongyrchol i chi.



Eisiau mwy o hyblygrwydd?

- Cynyddu eich pensiwn: gallwch dalu mwy i mewn i'ch pensiwn CPLlL drwy Gyfraniadau Pensiwn Ychwanegol (CPY) neu Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY).
- Talu llai: mae'r opsiwn 50/50 yn caniatáu i chi dalu hanner eich cyfraniadau arferol tra'n parhau i gael buddion allweddol fel yswiriant bywyd.

Gwnewch y mwyaf o'ch pensiwn CPLlL

- Ystyriwch drosglwyddo pensiynau blaenorol i'r CPLlL. Gallwch drosglwyddo pensiynau o fewn y flwyddyn gyntaf ar ôl dod yn aelod o'r CPLlL - cysylltwch â'ch cronfa bensiwn am ragor o fanylion.
- Cadwch eich manylion yn gyfredol, gan gynnwys pwy yr hoffech i unrhyw grant marwolaeth gael ei dalu iddo



I ddarganfod fwy, ewch i: www.lgpsmember.org



cpllll | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Tawelwch meddwl am y dyfodol, heddiw.

www.lgpsmember.org